WG35. 5. 22

# COFFADWRIAETH Y CYFIAWN,

NEU

# ALARNAD

AR YR ACHLYSUR O

## FARWOLAETH

## Y PARCH. JENKIN DAVIES,

GYNT O BENSARN.

*Bu farw Awst y 10fed, 1842, yn 45ain oed.*

A gyhoeddwyd trwy ganiattâd Cyfarfod Misol Swydd Aberteifi.

CASTELLNEWYDD-EMLYN:
ARGRAFFWYD GAN WILLIAM JONES, HEOL-Y-BONT.
MDCCCXLIII.

X2CS3 07921

# MARWNAD.

Beth yw'r newydd anniddanus,
  Trwm, galarus, ddaeth i'n clyw,
Ai gwir marw *Jenkin Davies*,
  Ynte gwag ddychymyg yw?
Ah! gwir ydyw, rhaid yw credu,
  Ffeithiau fil a brofant hyn;
Ol y rhwygiad, pwysau'r ergyd,
  Bair i lawer wylo'n llyn.

Angau! angau! 'rwyt yn greulon,
  Cyn it drochi min dy glêdd,
Yn ngwaed gwron oedd mor enwog,
  Rhoist y bywiog was i'r bedd:
Nis gall gras, na defnyddioldeb,
  Droi dy gleddyf miniog draw,
Onidê, nis gwelsid *Davies*
  Byth yn glwyfus dan dy law.

Seion eiddil sydd yn teimlo,
  Ac yn gorfod gwisgo du,
O waith colli un deallgar,
  Mae mewn galar heddyw lu;
Megis gynt yn Hadad-Rimon,
  'Rol Josia'r Brenin mwyn,
Felly clywir ar ol *Davies*
  Drwy holl Gymru, boenus gŵyn.

Os yw codi côf-golofnau
  'N gweddu i fon'ddigion byd,
Neu i filwyr uchel fwriad
  A fu'n tywallt gwaed mewn llid,—
Pwy a'n beia am gôf-golofn
  I'r gwr enwog aeth o'n plith;
Yn anfarwol, bydded parchus
  Enw *Jenkin Davies* byth.

Doed holl adar mân y goedwig,
Yn lle canu *miwsig* mwyn,
I roi larwm leddf alarus,
Llef hiraethus y'mhob llwyn:
Pawb sy'n teimlo, de'wch galerwch,
Achos tristwch sydd yn awr,
Syrthiodd cadarn ŵr yn Israel,
Cwympodd mwyn dywysog mawr.

Ar ymadrodd, o na fedrwn,
Fel y gallwn draethu'n llawn,
Ei nôd-wedd fel *dyn* a *christion*,
A Phregethwr ffyddlon iawn:
Ei rinweddau nid wy'n 'nôdi,
Er mwyn codi enw dyn,
(Clod i'r Arglwydd oll a fyddo
Fyth am ddonio in' fath Un.)

Ond 'rwy'n dweud ei hynod hanes,
Fel y gallo'r oes a ddêl
Gofio'r blaenor hwn a'i ddilyn,
Fel esiampl mewn ffydd a sêl:
Coffadwriaeth am y Cyfiawn
Hwn, yn fendigedig fydd,
'Fe'n llefaru, er ei farw,
Yn dra chroëw etto sydd.

Cyfaill hawddgar, llawn trugaredd,
A diduedd oedd fel dyn;
Un heddychlawn,—yspryd llariaidd,
Boneddigaidd,—hawdd ei drin:
Beichiau eraill oedd yn gario,
Cydymdeimlo wnae a'r trist,
Felly, 'r ydoedd ef yn helaeth
Yn cyflawni cyfraith Crist.

Nid un brysiog oedd ar eiriau,
Fe reolai arno'i hun;
Ffrwyth myfyrdod oedd a dd'wedai,
Gair o'i le, nid hawdd caid un;

Fe adwaenai amser tewi,
  Gwnae lefaru pan f'ai rhaid:
Ymadrodd ffol na serthedd hefyd,
  Byth o'i enau ef nis caid.

'R ydoedd ef yn un diragfarn,
  'N meddu ysprydy barn ei hun;
Ni wnae goelio unrhyw gredo,
  Nes ei wel'd a'r Beibl yn un:
Halogedig ffol gwestiynau
  Ynghylch geiriau gwag, difudd,
Cyndyn ddadleu heibio rhoddai,
  'N iach pregethai air y ffydd.

'N morau 'i oes gwnaeth ddwys fyfyrio,
  Darllen, chwilio 'n ddyfal iawn,
Heb fanteision mawr ddysgeidiaeth,
  Nes cynnyddu'n llestr llawn,
Cymmwys addas i gyhoeddi
  A gwir draethu cyngor Duw,
Yn ei amryw ddyfnion rannau,
  Yn dra golau i ddynolryw.

Chwiliai eiriau cymmeradwy,
  Dealladwy, heb wall iaith;
Nid sŵn gwag, na thwyll *Philosoph'*,
  Geiriau chŵydd, na chellwair chwaith,
Ond ymadrodd golau, medrus,
  Doeth yn ol ewyllys Duw;
Pur Ysgrythyr heb ddim gwegi,
  Wnae draddodi yn ein clyw.

'Roedd ei bregeth gywrain, odiaeth,
  Fel rhyw ddarn gyfanwaith aur,
Gwerthfawr, nerthol, llawn prydferthwch,
  Pur, di-sothach, gemmau'r gair;
Trwy 'Sgrythyrau yr esponiai
  In' destunau dyrus iawn;
Geiriau'r Beibl yn aml oedd pennau,
  A sylwedd ei Bregethau'n llawn.

Hynod ostyngedig ydoedd,
   Ni ro'i gyhoedd floedd o'i fla'n,
Ond yn ddistaw pan lefarai,
   'Roedd ei eiriau fel y tân;
Synnai'r dyrfa wrth ei wrando
   'N treiddio ac esponio'r Gair:
Am gyssoni'r Ysgrythyrau,
   Pwy fel ef?—pa le y cair?

'Roedd E'n fawr am wel'd diwygiad
   Mewn gweithrediad trwy bob gwlad,
A chael y byd yn ail Baradwys,
   Heb un annhrefn llid na brad:
Llwybrau'r Arglwydd wnae uniawnu,
   Gan balmantu'r ffordd o'i fla'n,
Ceisiai symmud pob rhyw rwystrau
   Sy'n tristau yr Yspryd Glân.

Gyda'r Ysgol fwyn Sabbathol,
   Colofn nerthol, buddiol fu,
Trwy draddodi egwyddorion
   Iachus, maethlon, iawn i ni:
Pyngciau cywrain gyfansoddodd,
   'N dystion cyhoedd heddyw sydd
O'i fawr ddeall, a'i wybodaeth
   Gyflawn, helaeth, yn ei ddydd.

Selog pleidiai'r Cymdeithasau,
   Sy'n cynniwair trwy ein gwlad,
Sef rhai uniawn eu dybenion,
   Rydd i ddynion fawr leshâd;
Fe ymdrechai i anfon Beiblau
   I bob cenedl, llwyth, ac iaith,
Ac i anfon gwir Genhadon,
   Er dyrchafu Iesu a'i waith.

Dros y Beibl yn hŷf dangosai
   Faint ein braint a'n rhwymau 'nghyd,
A hanes tywyll-leoedd daear
   Trwy y pedwar ban o'r byd;

Nes i lawer wrth ei wrando
  Orfod tystio a dweud yn rhydd,
Mi rof gyfran o fy arian
  I gael Beibl i'r Pagan prudd.

Ymresymmu wnai ar Ddirwest
  'N gadarn, golau, hyddysg iawn,
Nid traddodi rhyw haeriadau,
  Ond fe brofai 'i bwngc yn llawn;
'Roedd ei gedyrn resymmiadau,
  Ac adnodau 'n gwau y'nghyd,
Mewn rhyw berffaith hardd gydgordiad,
  Nes rhoi'r wrthblaid groes yn fud.

Ond yn nghanol teg oleuni,
  Och! daeth in' dywyllwch prudd;
Seren ddisglaer, danllyd, olau,
  Yn ddisymmwth aeth dan gudd:
Araeth fywiawg, traethawd, darlith,
  Oll yn gryf, athrylith llawn,
Cyngor, cerydd, addysg wiwddoeth
  Ganddo mwyach, byth nis cawn.

P'le mae'r tafod rhydd, fu'n traethu
  Cennadwri Brenin hedd?
P'le mae'r doeth, fu'n hyf lefaru?
  Ow! mae'n ddistaw yn y bedd!
P'le mae'r enaid cryf gynneddfau,
  Blymiau foroedd dwfn y Gair?
Y mae hwnw'n rhydd yn chwareu
  Tỳnion dànau'r delyn aur.

Gad'odd adfyd a gofidiau,
  Cyn dôd iddo'r dyddiau blin,
Nad oes ynddynt ddim diddanwch,
  Ond rhyw dristwch oll yn nglŷn;
Ca'dd fyn'd adre' ynghanol oedran,
  Pan yn bump a deugain oed,
Odd'wrth ei waith i dderbyn gwobr,
  Pa fraint ragor all'sai fod.

Cofier dydd ei gladdedigaeth,
  Pryd dangoswyd helaeth barch,
Gan y miloedd a ddilynai
  'R elor-gerbyd gludai' arch:
'Roedd hen fynwent oer Llansilio
  Braidd yn bloeddio wrth fath fraint,
O gael llechu yn ei chrombil,
  Wr mor anwyl gydâ'r saint.

Y fan, dychmygwyf lle mae'n gorwedd,
  Mewn rhyw lawn orfoledd sydd
'N disgwyl dydd i'r beddau agor,
  I roi'r enwog hwn yn rhydd:
Henffych forau'r ail gyferfydd
  Dau hen gyfaill hoff ynghyd,
Mewn rhyw agwedd llwyr wahanol
  I'r hyn oeddynt yn y byd.

Y corff oedd wan fydd mwy yn nerthol,
  Fel yr enaid byth heb boen,
Yn gorff cymmwys, pur, ysprydol,
  I was'naethu Duw a'r Oen,
Gydâ'r seintiau perffeithiedig,
  Ac angelion yn gyttûn,
'N perffaith seinio per Hosanna,
  Am yr uwcha i Dri yn Un.

Seion, Seion dwys ystyria,
  Na lwfrhâ, gwêl pwy sydd Dduw,
Os yw'r gweision hoff yn meirw,
  Y mae'r Meistyr mawr yn fyw!
Os yw'n cym'ryd y Cyfiawnion,
  Ffyddlon weision atto i'r Ne',
Ymbil arno am ddatguddio
  Ei fraich, trwy ddonio rhai 'n eu lle.

Nerther chwithau ei berth'nasau
  Dan y croesau trymaf ddaw,
I ro'i lle i ddwys ystyriaeth,
  Fod llywodraeth fawr yn llaw

Ein Tad o'r Nef, yr hwn sydd berffaith
  Duw gwybodaeth, doeth, a dâ,
'R hwn nâs dichon byth gamsynied
  Mewn un weithred oll a wna.

Barn a phur gyfiawnder ydyw
  Trigfa ei orseddfaingc wèn,
Er fod cantau 'r hen olwynion
  'N uchel droi tu fewn i'r llèn:
Ni ddaw dim i'r plant er niwed,
  Hwy gânt weled ar ol hyn,
Fod holl droion croes yr anial
  'N uniawn ffordd i Salem fryn.

---

'B'le 'r aeth yr un call, deallawl,—addfwyn,
  Gynneddfau naturiawl?
  Aeth ef y cu ŵr ethawl
  O fyd gwae i fywyd gwawl.

O golli hwn, fe gollwyd—o Seion
  Was ffyddlawn a diwyd:
  Ein gwron ro'w'd mewn gweryd,
  Aeth i'r bedd, ymaith o'r byd.

O fyd aeth, Och! oer fyd weithian,—cawn fod
  Heb ein *Jenkin* fwynlan,
  'S geilw Duw ei was gwiwlan
  O oer lwch daear i'r lan.

*Pensarn.* EVAN EVANS.

---

WILLIAM JONES, ARGRAFFYDD, CASTELLNEWYDD.